| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>Templed Adroddiad Sgriwtini | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **28 Chwefror, 2023** |
| **Pwnc:** | **Gosod Cyllideb 2023/24 (Refeniw)** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Ystyried y cynigion cyllidebol drafft terfynol ar gyfer 2023/24** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Robert Llewelyn Jones** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Cyng Robin Williams** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Marc Jones, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adain 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini**<br>**07971167198**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Perthnasol i'r Holl Aelodau Etholedig** |

| 1 – Argymhelliad/Argymhellion |
|---|
| Cytuno ar ymateb ffurfiol i'r Pwyllgor Gwaith ar gyllideb refeniw ddrafft y Cyngor ar gyfer 2023/24 (gan ddefnyddio'r cwestiynau sgriwtini allweddol yn adran 4 yr adroddiad). |

| 2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill |
|---|
| Cyswllt uniongyrchol â Chynllun y Cyngor a blaenoriaethau trawsnewid. Bydd ystyriaeth y Pwyllgor o'r cynigion cyllidebol ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cynnwys sut mae'r cynigion yn galluogi'r Cyngor newydd i gyflawni ar Gynllun y Cyngor yn ogystal ag unrhyw risgiau penodol. |

**3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:
- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)

- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

Cynigir y cwestiynau allweddol canlynol fel sail ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor o gynigion cyllidebol 2023/24:

i. Gan ddefnyddio'r wybodaeth ar gael i'r Pwyllgor ynghylch gwasanaethau'r Cyngor a'r setliad cyllidol drafft ar gyfer 2023/24, ydy'r cynigion yn ymateb yn ddigonol i'r pwysau a'r heriau yn wynebu Gwasanaethau?

ii. I ba raddau mae'r Pwyllgor yn cefnogi cynigion y Pwyllgor Gwaith i ddefnyddio cyllid a ryddhawyd o ganlyniad i newidiadau mewn ardollau a chyfraniad i wasanaethau ar y cyd ar ôl i'r cynnig cyllideb cychwynnol gael ei osod, wrth osod y gyllideb ar gyfer 2023/24:
    - System Rheoli Gwybodaeth Newydd i Ysgolion – costau trosglwydd interim
    - Deddf Etholiadau 2022 – capasiti staffio ychwanegol
    - Cefnogaeth i Aelodau – capasiti gweinyddol ychwanegol
    - Datblygu Economaidd – capasiti ychwanegol i wneud y mwyaf o gyfleon cyllid ar gael drwy grantiau
    - Cytundeb Prydau Ysgol – ariannu cynnydd yn y gost fesul pryd (sector uwchradd) er mwyn osgoi trosglwyddo'r cynnydd i ddisgyblion

iii. Ydy'r Pwyllgor yn ystyried y bydd unrhyw gynigion arbedion yn cael effaith andwyol ar ddinasyddion Ynys Môn neu unrhyw grwpiau sydd wedi'u gwarchod? A yw'r Pwyllgor yn ystyried y dylid cymryd unrhyw gamau pellach er mwyn lliniaru effaith y cynigion ar ddinasyddion Ynys Môn neu grwpiau sydd wedi'u diogelu?

iv. I ba raddau mae'r Pwyllgor yn cefnogi codiad o 5% yn y Dreth Gyngor er mwyn gwireddu cynigion y Pwyllgor Gwaith ar gyfer 2023/24? Os ddim, a ddylai'r cynnydd fod yn uwch neu'n îs na'r hyn a argymhellir gan y Pwyllgor Gwaith?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

## 1. CYD-DESTUN

1.1 Mae'r gwaith o graffu ar y broses gosod cyllideb wedi datblygu ac aeddfedu dros y blynyddoedd diwethaf, gan osod y seiliau ar gyfer proses well a mwy systematig sy'n seiliedig ar ganlyniadau ac arfer dda. Mewn gwirionedd, mae'r broses yn caniatáu ar gyfer dull mwy systematig o graffu ariannol, fel bloc adeiladu hanfodol ar gyfer rheolaeth a llywodraethiant ariannol cadarn.

1.2 Bydd Aelodau'n ymwybodol bod cyllid yn hanfodol i'r gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu a bod goblygiadau pellgyrhaeddol i'r materion ariannol sy'n ein hwynebu fel awdurdod lleol – o ran y gwasanaethau sy'n cael eu derbyn gan ein dinasyddion a hefyd lefel y Dreth Gyngor neu'r ffioedd a'r taliadau a godir[1]. Yn anochel, bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni ofyn cwestiynau heriol ynghylch pa wasanaethau i'w cynnig i'r dyfodol a pha wasanaethau i fuddsoddi ynghyd a hefyd i

[1] Disgwyliadau Uwch – Craffu ariannol mewn cyfnod heriol. Canllaw i awdurdodau lleol Cymru (Canolfan Craffu Cyhoeddus, Mehefin 2014)

ba raddau y mae'r dulliau cyfredol o ddarparu gwasanaethau yn parhau i fod yn briodol. Ystyriaeth arall hefyd yw'r ffordd orau o reoli disgwyliadau pobl leol wrth wneud y newidiadau angenrheidiol. Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, mae angen rhoi sicrwydd i'r Aelodau felly bod y Cyngor yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau, yn enwedig adnoddau cyllidol.

1.3 Wrth ystyried eu hymateb i'r cynigion cyllidebol drafft terfynol, bydd angen i aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ystyried y cynigion o ran sefyllfa ariannol tymor hwy y Cyngor (ein Cynllun Ariannol Tymor Canol) ac amcanion a blaenoriaethau'r Cyngor fel y nodir nhw yng Nghynllun y Cyngor.

**2. GOSOD CYLLIDEB Y CYNGOR AR GYFER 2023/24**

2.1 Ynghlwm mae copi o adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adain 151 ar y cynigion drafft terfynol ar gyfer cyllideb 2023/24 **(ATODIAD 1)** a fydd gerbron cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith ar 2 Mawrth, 2023. Mae'r papur yn cyflwyno datganiad ar y sefyllfa mewn perthynas â'r materion a ganlyn:

- Cynigion cyllidebol cychwynnol y Pwyllgor Gwaith
- Y setliad cychwynnol ar gyfer Llywodraeth Leol (Llywodraeth Cymru)
- Y sefyllfa gychwynnol ar gyfer cyllideb 2023/24
- Y pwysau cyllidebol y mae'n rhaid caniatau ar eu cyfer yng nghyllideb 2023/24
- Y risgiau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor yn ystod 2023/24
- Lefel y cynnydd yn y Dreth Gyngor sydd ei angen i osod cyllideb gytbwys
- Effaith ar y Cynllun Ariannol Tymor Canol.

Disgwylir manylion y Setliad Terfynol ar gyfer cyllideb 2023/24 gan Lywodraeth Cymru ar 28 Chwefror, 2023.

**3. SGRIWTINI ARIANNOL – GOSOD CYLLIDEB 2023/24**

3.1 Mae craffu ariannol yn llawer mwy nag ychwanegu gwerth at benderfyniadau a wneir gan y Pwyllgor Gwaith. Mae'n ymwneud â sicrhau craffu effeithiol o ran cynllunio, cyflawni a dilyn i fyny'r penderfyniadau allweddol hynny sy'n cael effaith ar drethdalwyr a chymunedau lleol. Dylai sgriwtini felly:

- Ddarparu her effeithiol
- Dal y rheini sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif; a
- Cynorthwyo'r Pwyllgor Gwaith i ddatblygu cyllideb gadarn ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**4. PANEL SGRIWTINI CYLLID**

4.1 Mae Panel Sgriwtini Cyllid wedi'i sefydlu i sicrhau'r canlyniadau allweddol canlynol:

- Datblygu model o weithio ar faterion cyllid sy'n canolbwyntio ar ffurfio grwpiau llai fel y gall Aelodau chwarae mwy o ran, datblygu lefel o arbenigedd yn y pwnc ac er mwyn annog presenoldeb da a gwaith tîm.
- Fforwm i ddatblygu grŵp o aelodau sydd â'r arbenigedd a'r berchnogaeth i arwain trafodaethau ariannol yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

4.2 Rhoddodd y Panel ystyriaeth i fanylion diweddaraf y cynigion cyllidebol yn ei gyfarfod diwethaf (15 Chwefror, 2023). Bydd crynodeb o drafodaethau'r Panel yn

cael ei gyflwyno ar lafar yn y cyfarfod gan y Cyng Dafydd Roberts, Cadeirydd y Panel.

**5. MATERION SGRIWTINI ALLWEDDOL**

6.1 Mae proses gosod cyllideb 2023/24 yn rhoi cyfle i Aelodau Etholedig ystyried a herio goblygiadau'r gyllideb ddrafft ac unrhyw gynigion buddsoddi. Derbyniwyd mewnbwn hefyd trwy'r Panel Sgriwtini Cyllid sydd wedi rhoi ystyriaeth fanwl i'r cynigion cyllidebol. Yn y rhan hon o'r broses, gofynnir yn awr i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol gytuno ar ymateb ffurfiol i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith[2] ar gynigion y Cyngor ar gyfer cyllideb refeniw 2023/24 (gan ddefnyddio'r cwestiynau sgriwtini allweddol ym mharagraff 4 uchod).

6.2 Yng ngoleuni'r broses gosod cyllideb ar gyfer 2023/24 hyd yma, cynigir felly y dylai'r Pwyllgor:

i. Ystyried y cynigion cyllidebol drafft terfynol a chynnig sylwadau gall y Pwyllgor Gwaith eu hystyried cyn cytuno ar ei gynigion cyllideb arfaethedig ar 2 Mawrth, 2023
ii. Archwilio effeithiau tebygol y cynigion cychwynnol ar ddinasyddion
iii. Dod i farn am lefel y Dreth Gyngor ar gyfer 2023/24.

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| Adnabod yr angen am unrhyw asesiadau effaith nes ymlaen yn y broses o sefydlu'r gyllideb ar gyfer 2023/24. |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| Adnabod yr angen am unrhyw asesiadau effaith nes ymlaen yn y broses o sefydlu'r gyllideb ar gyfer 2023/24 |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| Adnabod yr angen am unrhyw asesiadau effaith nes ymlaen yn y broses o sefydlu'r gyllideb ar gyfer 2023/24. |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Mae'r adroddiad hwn yn trafod y broses ar gyfer gosod cyllideb y Cyngor ar gyfer 2023/24, sy'n cynnwys ystyriaeth o'r cynigion drafft terfynol ar gyfer y cyllidebau refeniw. |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| **ATODIAD 1** Adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) ar y cyllidebau refeniw arfaethedig ar gyfer 2023/24 |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni. LL77 7TW |

[2] Cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 2 Mawrth, 2023

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **2 MAWRTH 2023** |
| **Pwnc:** | **STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG A CHYLLIDEB 2023/24** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS – DEILYDD PORTFFOLIO – CYLLID, BUSNES CORFFORAETHOL A PHROFIAD CWSMER** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **MARC JONES**<br>01248 752601<br>rmjfi@ynysmon.llyw.cymru |
| **Aelodau Lleol:** | **AMHERTHNASOL** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a'r Rheswm/Rhesymau**

## 1. STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOL A CHYLLIDEB REFENIW 2022/23

### 1.1 Pwrpas

Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Gwaith gytuno ar nifer o faterion allweddol mewn perthynas â chyllideb 2023/24. Fel hyn, bydd modd, wedyn, gyflwyno'r argymhellion terfynol i'r Cyngor llawn yn ei gyfarfod 9 Mawrth 2023. Dyma'r materion y mae angen cytuno arnynt:-

- Cyllideb Refeniw'r Cyngor a'r Dreth Gyngor wedi hynny am 2023/24;
- Strategaeth Ariannol Tymor Canol y Cyngor wedi'i ddiweddaru;
- Defnyddio unrhyw gyllid untro i ategu'r gyllideb.

### 1.2 Crynodeb

Mae'r papur hwn yn dangos cynigion manwl y gyllideb refeniw am 2023/24 y mae angen eu hadolygu'n derfynol a chytuno arnynt, a'r effaith ddilynol ar gyllideb refeniw Cyngor Sir Ynys Môn. Materion i'r Cyngor gytuno arnynt yw'r rhain a gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith wneud argymhellion terfynol i'r Cyngor.

Mae'r papur hefyd yn diweddaru'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol, sy'n roi cyd-destun ar gyfer gwaith ar gyllidebau'r Cyngor yn y dyfodol. Fodd bynnag, dylid nodi y byddir yn cyflwyno adroddiad pellach ar Strategaeth Ariannol Tymor Canol y Cyngor i'r Pwyllgor Gwaith yn hwyrach ymlaen yn y flwyddyn, pan fydd rhagor o wybodaeth am yr economi a'r setliad ariannol arfaethedig i lywodraeth leol yn y dyfodol, o bosib, yn eglurach.

## 2. ARGYMHELLION AR GYFER CYLLIDEB REFENIW A'R DRETH GYNGOR 2023/24

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith :-

- Gytuno ar fanylion terfynol cyllideb arfaethedig y Cyngor, fel y dangosir yn Adran 4 Atodiad 1 ac Atodiad 2;
- Nodi argymhelliad y Swyddog Adran 151 y dylai'r Cyngor gadw o leiaf £8.6m o falansau cyffredinol;
- Nodi sylwadau'r Swyddog Adran 151 ar gadernid yr amcangyfrifon a wnaed, fel y nodir yn Adran 5 Atodiad 1;

- Argymell i'r Cyngor llawn gyllideb net o £172.548m i'r Cyngor Sir a chynnydd, yn sgil hynny, o 5.00% (£68.40 – Band D) yn y Dreth Gyngor, gan nodi y câi penderfyniad ffurfiol, yn cynnwys praeseptau Heddlu Gogledd Cymru a'r Cynghorau Cymuned, ei gyflwyno i'r Cyngor 9 Mawrth 2023;
- Y bydd unrhyw wahaniaethau rhwng y setliad amodol a'r setliad terfynol yn cael eu haddasu drwy ddefnyddio'r arian wrth gefn cyffredinol sydd wedi ei gynnwys yng nghyllideb 2023/24, neu drwy gyfrannu i / o gronfeydd wrth gefn cyffredinol y Cyngor er mwyn gosod cyllideb gytbwys.
- Awdurdodi'r Swyddog Adran 151 i wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol cyn cyflwyno'r cynigion terfynol i'r Cyngor;
- Cytuno y byddir yn gallu tynnu cyllid o'r gyllideb wrth gefn gyffredinol yn sgil unrhyw bwysau, na chawsant eu rhagweld, ar gyllidebau seiliedig ar alw yn ystod y flwyddyn ariannol;
- Gofyn i'r Cyngor awdurdodi'r Pwyllgor Gwaith i ryddhau hyd at £250k o'r balansau cyffredinol os yw'r gyllideb wrth gefn gyffredinol wedi'i hymrwymo'n llawn yn ystod y flwyddyn;
- Dirprwyo i'r Swyddog Adran 151 yr hawl i ryddhau cyllid o hyd at £50k o'r gronfa wrth gefn gyffredinol ar gyfer unrhyw eitem unigol. Ni ddylid caniatáu unrhyw eitem dros £50k heb ganiatâd o flaen llaw y Pwyllgor Gwaith;
- Cadarnhau bod lefel Premiwm y Dreth Gyngor ar gyfer ail gartrefi yn cynyddu i 75%, ac yn aros ar 100% ar gyfer cartrefi gwag.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Ystyriwyd nifer o opsiynau yn dilyn cyhoeddi cynigion cychwynnol y gyllideb. Mae cynigion terfynol y gyllideb yn ystyried y setliad terfynol i lywodraeth leol, safbwyntiau a fynegwyd yn ystod y broses ymgynghori a barn y Pwyllgor Sgriwtini.

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor Gwaith gyhoeddi ei gyllideb arfaethedig derfynol cyn iddo gael ei ystyried gan y Cyngor.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi. Bydd y penderfyniad terfynol ar gyllideb refeniw 2023/24 yn cael ei wneud gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod 9 Mawrth 2023.

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Amherthnasol

**Dd – Asesu'r effaith bosibl (os yw'n berthnasol)**

| | | |
|---|---|---|
| **1** | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys | Wrth lunio'r gyllideb arfaethedig, mae'r Pwyllgor Gwaith wedi ystyried ei ddyletswyddau statudol a'r amcanion a nodir yn ei Gynllun Corfforaethol. |
| **2** | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut:- | Mae manylion unrhyw gynigion am arbedion wedi'u nodi yn yr adroddiad. |
| **3** | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy- | Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio gyda Chynghorau eraill a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i bwyso ar Lywodraeth Cymru am y setliad ariannol gorau posibl. |
| **4** | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:- | Ymgynghorwyd ar y gyllideb arfaethedig ac mae'r manylion i'w gweld yn yr adroddiad. Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad cyn cytuno ar y gyllideb arfaethedig derfynol. |

| | | |
|---|---|---|
| **5** | Nodwch unrhyw effaith bosib y câi'r penderfyniad yma ar y grwpiau a warchodir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Bydd unrhyw gynigion sydd wedi'u cynnwys yng nghyllideb derfynol 2023/24 yn cadw mewn cof yr effaith ar unrhyw grwpiau a warchodir. |
| **6** | Os penderfyniad strategol yw hwn, nodwch unrhyw effaith bosibl y câi'r penderfyniad yma ar y rhai sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol. | Yn sgil y gyllideb, bydd trethdalwyr Ynys Môn yn talu mwy o Dreth Gyngor. Bydd y rhai dan anfantais economaidd-gymdeithasol yn fwy tebygol o fod yn gymwys am gymorth trwy'r Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Ni ddylai'r rhai sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol weld unrhyw / fawr ddim effaith ariannol. |
| **7** | Nodwch unrhyw effaith bosib y câi'r penderfyniad yma ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg | Ni welwyd unrhyw |

| **E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA)** (mandadol) | Mae'r Prif Weithredwr a'r Tîm Arweinyddiaeth wedi bod yn rhan o broses gosod y gyllideb o'r cychwyn cyntaf, ac maent yn cytuno â'r adroddiad ac yn ategu'r cynnig ynghylch y gyllideb derfynol. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn. |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Mae'r Swyddog Monitro yn rhan o'r TA ac, fel y cyfryw, ystyriwyd sylwadau'r Swyddog. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | - |
| **5** | **Eiddo** | - |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | - |
| **7** | **Sgriwtini** | Cafodd y gyllideb arfaethedig derfynol eu hystyried gan y Pwyllgor Sgriwtini yn ei gyfarfod 28 Chwefror 2023. Rhoddir canlyniad y cyfarfod ar lafar i'r Pwyllgor Gwaith. |
| **8** | **Aelodau Lleol** | Mae cyllideb y Cyngor yn berthnasol i bob Aelod a chynhaliwyd ymgynghoriad trwy gydol proses gosod y gyllideb. |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol eraill** | Gweler Adran 2 yr adroddiad. |

**F - Atodiadau:**

• Atodiad 1 – Adroddiad manwl ar Gynigion y Gyllideb
• Atodiad 2 – Crynodeb o Gyllideb Refeniw Arfaethedig 2022/23 fesul Gwasanaeth

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):**

• Y Gyllideb Arfaethedig Gychwynnol am 2023/24 – Pwyllgor Gwaith – 24 Ionawr 2023
• Y Gyllideb Arfaethedig Gychwynnol am 2022/23 – Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol – 19 Ionawr 2023
• Cynllun Ariannol Tymor Canol am 2023/24 i 2024/25 – Pwyllgor Gwaith – 27 Medi 2022

## 1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

**1.1.** Yn yr adroddiad a ganlyn nodir cyllideb refeniw arfaethedig 2023/24, ac mae'n un o gyfres o adroddiadau sy'n rhoi darlun cyffredinol o sefyllfa ariannol y Cyngor ac yn sicrhau y caiff cyllid y Cyngor ei neilltuo i gwrdd â'i flaenoriaethau. Mae'r adroddiadau eraill yn y gyfres yn ymwneud â Rhaglen Gyfalaf a Strategaeth Gyfalaf y Cyngor, Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor a Ffïoedd a Thaliadau.

**1.2.** Mae'r gyllideb refeniw a'r angen parhaus i nodi arbedion refeniw wedi'u llywio gan y Cynllun Ariannol Tymor Canol, fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2022, a gellir eu crynhoi fel a ganlyn:-

**Tabl 1**
**Cynllun Ariannol Tymor Canol 2023/24 to 2024/25**

| | 2023/24<br>£'m | 2024/25<br>£'m |
|---|---|---|
| Cyllideb Refeniw Net - Dygir ymlaen | 158.367 | 164.682 |
| Pwysau ar y Gyllideb a Chwyddiant | 18.147 | 8.003 |
| **Cyllideb Ddisymud Ddiwygiedig** | **176.514** | **172.685** |
| Cyllid Allanol Cyfun (AEF) (gan ragdybio cynnydd o 3.6% yn 2023/24 a chynnydd o 2.4% o yn 2024/25) | 118.675 | 121.523 |
| Treth y Cyngor (gan ragdybio cynnydd o 5% yn 2023/24 a 2024/25) | 46.007 | 48.307 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **164.682** | **169.830** |
| | | |
| **Cyllid Ychwanegol sydd ei Angen / Arbedion sydd eu Hangen** | **11.832** | **2.855** |
| | | |
| **Prif Ragdybiaethau** | | |
| Dyfarniadau Cyflog – i rai nad ydynt yn athrawon | 7.8% | 3.0% |
| Dyfarniadau Cyflog – i athrawon | 5.2% | 3.2% |
| Chwyddiant cyffredinol | 16.4% | 1.8% |
| Noder - Gyda ffigurau 2023/24, bu cywiriad i'r gyllideb sail oherwydd tanddarpariaeth ar gyfer chwyddiant yng nghyswllt cyflog a phrisiau yng nghyllideb 2022/23. | | |

**1.3.** O gofio bod y gyfradd chwyddiant yn sylweddol uwch na'r arfer, nid oedd prisiau ynni wedi'u derbyn am y flwyddyn i ddod ac nad oedd codiadau cyflog am 2022/23 wedi'u pennu pan luniwyd y Cynllun Ariannol Tymor Canol (CATC), roedd risg sylweddol y gallai'r bwlch cyllido fod wedi bod hyd yn oed yn uwch na'r ffigyrau a ddangosir yn y CATC.

**1.4.** Wrth lunio'r gyllideb arfaethedig gychwynnol, roedd dyfarniad cyflog 2022/23 wedi'i setlo, roedd chwyddiant wedi dechrau dangos arwyddion ei fod wedi cyrraedd ei anterth ac roedd y prisiau ynni newydd ar gyfer y flwyddyn Hydref 2022 i Fedi 2023 wedi'u derbyn. Roedd mwy o sicrwydd ynghylch y gyllideb sylfaenol oherwydd hyn.

**1.5.** Roedd ffigyrau setliad drafft Llywodraeth Cymru hefyd yn well na'r hyn a ragwelwyd, gyda'r Cyngor yn gweld cynnydd o 7.9%, o'i gymharu â'r 3.6% oedd wedi'i gynnwys yn y CATC.

**1.6.** Fodd bynnag, er gwaethaf y newidiadau hyn a bod y bwlch cyllido yn is na'r hyn a ragwelwyd yn y CATC, mae'n dal i fod yn sefyllfa ariannol heriol am 2023/24 a 2024/25, a bydd disgwyl i gostau barhau i godi oherwydd chwyddiant a galw cynyddol. Yn anffodus, does fawr ddim gobaith y bydd y cyllid gan Lywodraeth Cymru yn ddigon i dalu am y cynnydd hwn mewn costau.

## 2. Y GYLLIDEB ARFAETHEDIG GYCHWYNNOL

**2.1** Yn ei gyfarfod 24 Ionawr 2023, trafododd y Pwyllgor Gwaith y gyllideb arfaethedig wreiddiol a’r setliad dros dro yr oedd Llywodraeth Cymru wedi’i gyhoeddi 14 Rhagfyr 2022.

**2.2** Roedd y setliad dros dro yn well na’r disgwyl, a byddai’n rhoi £123.555m i’r Cyngor, sef cynnydd o £9.004m (7.86%) mewn termau arian parod ond, ar ôl ystyried trosglwyddo grantiau i mewn i’r setliad ac effaith y newid yn sylfaen dreth y Cyngor, £9.065m (7.92%) oedd y cynnydd wedi'i addasu.

**2.3** Cynigiodd y Pwyllgor Gwaith gyllideb o £172.438m am 2023/24 ac, o ystyried yr AEF dros dro o £123.555m, byddai’n rhaid codi y Dreth Gyngor 5.00% a defnyddio £1.758m o falansau cyffredinol y Cyngor i gael cyllideb gytbwys.

**2.4** Wrth osod y gyllideb arfaethedig, cydnabu’r Pwyllgor Gwaith bod angen diogelu gwasanaethau rheng flaen a chyllidebau cynyddol er mwyn cwrdd â’r galw cynyddol am wasanaethau Oedolion a Phlant ac atal digartrefedd.

**2.5** Roedd y gyllideb arfaethedig yn gwrthdroi £700k o fuddsoddiad mewn Addysg, oedd wedi’i gynnwys yng nghyllideb 2022/23, ac yn capio’r cynnydd yn y chwyddiant yng nghyllideb ddatganoledig Ysgolion 1% (£471k). Roedd y newidiadau hyn, ynghyd â chynnydd o £169k yng nghyllideb incwm Priffyrdd, yn ddigon i greu cyllideb oedd yn peri i’r gwariant net gyfateb i gyllid oedd ar gael.

**2.6** Er na fwriadwyd i Asesiad o Wariant Safonol (AWS) fod yn fesur o’r hyn y dylai cyllideb refeniw net y Cyngor fod, mae’n rhoi rhyw syniad ynghylch a yw cyllideb y Cyngor ar lefel resymol i’r Cyngor. £169.406m yw’r AWS am 2023/24 ac, felly, 101.8% o'r AWS yw'r gyllideb arfaethedig.

## 3 PWYLLGOR SGRIWTINI

**3.1.** Oherwydd yr oedi cyn cael y setliad dros dro a therfynol, bu’n rhaid crynhoi amserlen y gyllideb am 2023/24 er mwyn sicrhau bod y Cyngor mewn sefyllfa i osod y Dreth Gyngor o fewn yr amserlen a nodir yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (Adran 30(6)). Bu’r Panel Sgriwtini hefyd yn archwilio’n fanwl y cynigion buddsoddi mewn gwasanaethau yn ei gyfarfod 12 Ionawr 2023, a rhoddwyd gwybod i gyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 19 Ionawr 2023 am sylwadau’r Panel.

**3.2**. Bu i’r Pwyllgor Sgriwtini ystyried y gyllideb arfaethedig gychwynnol 2023/24 yn ei gyfarfod 19 Ionawr 2023. Penderfynodd y Pwyllgor gefnogi cynnig y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y gyllideb arfaethedig gychwynnol.

**3.3**. Rhoddodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ragor o ystyriaeth i’r gyllideb arfaethedig derfynol yn ei gyfarfod 28 Chwefror 2023, a bydd adroddiad llafar ar drafodaethau’r Pwyllgor yn cael ei gyflwyno i’r Pwyllgor Gwaith yng nghyfarfod y Pwyllgor.

## 4. Y GYLLIDEB ARFAETHEDIG DERFYNOL

**4.1** Wrth lunio’r gyllideb arfaethedig gychwynnol, roedd y Cyngor yn aros am benderfyniad ar gyfer y gyllideb derfynol mewn perthynas â chyrff ardoll a sefydliadau eraill sy'n derbyn cyfraniad gan y Cyngor. Dangosir yn Nhabl 2 isod effaith yr addasiadau sy’n deillio o gwblhau’r penderfyniadau ar gyllideb y Cyngor.

**4.1** Yn ogystal, mae un newid wedi’i wneud i’r setliad terfynol gan Lywodraeth Cymru, o’i gymharu â’r setliad drafft. Mae grant i gynorthwyo Awdurdod Tân Gogledd Cymru i gwrdd â chostau uwch pensiwn wedi'i drosglwyddo i'r setliad. Mae cynnydd yr Awdurdod Tân yn ei ardoll yn debyg ac, o’r herwydd, nid oes dim effaith net ar gyllideb y Cyngor.

**Tabl 2**

**Cyllideb Refeniw Net Ddiwygiedig y Cyngor**

| | £m | £m |
|---|---|---|
| **Cyllideb Refeniw Net Arfaethedig Gychwynnol 2023/24** | | **172.438** |
| | | |
| **Addasiadau** | | |
| Gostyngiad o 13.4% i 9.9% yn y cynnydd arfaethedig yn ardoll yr Awdurdod Tân | (0.131) | |
| Cynnydd yn ardoll yr Awdurdod Tân i adlewyrchu'r grant a drosglwyddwyd i'r setliad terfynol | 0.108 | |
| Cynnydd yn ardoll y Cyd-bwyllgor Corfforaethol i adlewyrchu penderfyniad terfynol y Cyd-bwyllgor Corfforaethol | 0.012 | |
| Cynnydd yn ardoll Tywyn Trewan | 0.010 | |
| Cynnydd yn y cyfraniad i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i adlewyrchu'r gyllideb derfynol | 0.011 | |
| Gostyngiad yn y cyfraniad i GwE i adlewyrchu'r gyllideb derfynol | (0.061) | |
| Gostyngiad yn y cyfraniad i Dîm Cynllunio mewn Argyfwng Gogledd Cymru i adlewyrchu'r gyllideb derfynol | (0.021) | |
| Mân Addasiadau Eraill | (0.017) | **(0.089)** |
| **Cyllideb Refeniw Net Ddiwygiedig 2023/24** | | **172.349** |
| | | |
| **Cyllidir gan** | | |
| Cyllid Allanol Cyfun (AEF) | 123.663 | |
| Y Dreth Gyngor (yn cynnwys Premiwm Ail Gartrefi a Thai Gwag) | 47.124 | |
| Cronfeydd Wrth Gefn | 1.759 | |
| **Cyllid Diwygiedig 2023/24** | | **172.546** |
| | | |
| **Cyllid sy'n weddill heb fod yn y Gyllideb Refeniw Net** | | **0.197** |

**4.2** Ystyriodd y Pwyllgor Gwaith dri opsiwn fel bod modd sicrhau fod y cyllid diwygiedig yn cyfateb i'r gyllideb refeniw net:-

- Lleihau'r defnydd a wneir o gronfeydd wrth gefn gan £197k i £1.562m;
- Gostwng y cynnydd yn y Dreth Gyngor i 4.56%. Byddai hyn yn newid yr hyn a godir yn y Dreth Gyngor Band D i £1,429.83, sydd £6.03 yn is na'r gyllideb arfaethedig gychwynnol;
- Cynyddu'r gyllideb refeniw net gan £190k, drwy ddarparu adnoddau ychwanegol i gwrdd â'r blaenoriaethau brys a nodwyd ers cytuno ar y gyllideb arfaethedig gychwynnol.

**4.3** Cyn cwblhau'r gyllideb yn derfynol, cynhaliwyd adolygiad i nodi unrhyw feysydd blaenoriaeth yr oedd angen cyllid ychwanegol arnynt i'r hyn a gynigiwyd yn y gyllideb arfaethedig gychwynnol. Yn dilyn yr adolygiad hwnnw, mae'r Pwyllgor Gwaith wedi cytuno i gynnwys y cyllidebau ychwanegol a ganlyn yn y gyllideb arfaethedig derfynol.

- Mae'r Gwasanaeth Addysg wedi caffael system rheoli gwybodaeth ysgolion newydd, mewn proses gaffael ar y cyd gyda'r pum awdurdod arall yng Ngogledd Cymru. Mae ffi'r drwydded flynyddol am y system newydd tua £30k yn llai na chost y system bresennol. Fodd bynnag, am 2023/24 bydd angen rhedeg y ddwy system yn gyfochrog ac, o'r herwydd, mae angen ychwanegu £44k arall at gyllideb y feddalwedd.
- Mae Deddf Etholiadau 2022 newydd yn gosod nifer o ddyletswyddau ychwanegol ar y Cyngor y bydd angen rhagor o staff arnynt i wneud y gwaith. O'r herwydd, bydd un swydd ychwanegol yn cael ei hychwanegu at strwythur staffio'r Tîm Etholiadau ar gost ychwanegol o £34k, sy'n net o gyllid grant a dderbynnir gan Lywodraeth y DU.

- Bu pryder ers peth amser nad yw lefel y gefnogaeth weinyddol i Aelodau Etholedig yn ddigon iddynt allu cyflawni eu holl ddyletswyddau a'u cyfrifoldebau yn effeithiol. Tîm bychan iawn yw'r Tîm Cefnogi Aelodau a chyfyd anawsterau pan fo staff yn absennol oherwydd gwyliau neu salwch. Y cynnig yw cael un swydd ychwanegol er mwyn rhoi mwy o gefnogaeth a gwella gwytnwch y Tîm. £42k yw cost ychwanegol y swydd.

- Yn dilyn ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd, mae'n ofynnol i'r Cyngor roi mwy o fewnbwn i gynlluniau megis y Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r Gronfa Codi'r Gwastad, oherwydd newidiadau i'r drefn cyllido grantiau. Mae'r newidiadau hefyd wedi creu cyfle i ddenu mwy o gyllid grant i Ynys Môn ac oherwydd hyn, ynghyd â chyfleoedd datblygu economaidd eraill e.e. datblygu porthladd rhydd, bydd gofyn am ragor o staff datblygu economaidd i sicrhau gwireddu'r budd mwyaf. Y cynnig, felly, yw cynyddu'r tîm datblygu economaidd ar gost o £69k.

- Roedd contractwr arlwyo prydau ysgol y Cyngor wedi gobeithio peidio â chodi prisiau tan fis Medi 2023 ond, oherwydd y cynnydd diweddar mewn bwyd, ynni a chyflogau staff, mae'r gost y cytunwyd arni fesul pryd wedi codi dros 10%, sy'n golygu bod cost pryd o fwyd mewn ysgol uwchradd wedi codi o £2.60 i £2.88. Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi cytuno i beidio â throsglwyddo'r cynnydd i ddisgyblion ac i gael rhagor o drafodaethau gyda'r contractwr arlwyo cyn penderfynu ar y pris a godir o fis Medi 2023 ymlaen. Bydd y gost ychwanegol wedyn yn disgyn ar y Gwasanaeth ac, o'r herwydd, mae angen cynnydd o £29k i gwrdd â'r gost ychwanegol hon.

**4.4** Effaith net y cynigion hyn yw cynyddu'r gyllideb refeniw net gan £218k, sydd £21k yn uwch na'r cyllid sydd ar gael. Byddai'r gost ychwanegol yn cael ei gyllido drwy gynyddu'r defnydd o falansau cyffredinol o £1,759k i £1,780k.

## 5 CADERNID AMCANGYFRIFON

**5.1** Mae Adran 25 Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid roi gwybod am gadernid amcangyfrifon y gyllideb ac a oes digon yn y cronfeydd ariannol wrth gefn arfaethedig.

**5.2** Mae amcangyfrifon y gyllideb yn seiliedig ar ragdybiaethau o wariant ac incwm yn y dyfodol ac maent yn cynnwys elfen o risg rhagdybiaeth. Gellir lliniaru effaith y risg hon trwy gynlluniau wrth gefn, cyllidebau wrth gefn a chronfeydd ariannol wrth gefn.

**5.3** Nid mater o gyfrifo'n gywir yn unig yw cadernid amcangyfrifon cyllideb. Yn ymarferol, mae llawer o gyllidebau'n seiliedig ar amcangyfrifon neu ragolygon, a gall fod elfen o risg o ran a fydd cynlluniau'n cael eu cyflwyno neu dargedau eu cyflawni. Caiff risgiau gwahanol i'r gyllideb eu hystyried yn eu tro isod:-

- **Risg Chwyddiant** – Pan fo lefelau chwyddiant yn isel a'r symudiad cyffredinol yn y gyfradd chwyddiant yn fach, yna mae'r risg chwyddiant yn isel, fel sydd wedi digwydd ers nifer o flynyddoedd. Fodd bynnag, mae mwy o ansicrwydd ynghylch chwyddiant cyflogau a phrisiau yn 2023/24, ac mae hyn yn cynyddu'r risg yn sylweddol. Cyrhaeddodd mesur cyffredinol chwyddiant (CPI) ei anterth ym mis Rhagfyr 2022, ac mae wedi dechrau gostwng yn ystod chwarter cyntaf 2023, ond mae llawer o ansicrwydd ynghylch pa mor gyflym y bydd yn gostwng, gyda'r rhagolwg optimistaidd yn dangos y bydd yn gostwng i tua 2% erbyn diwedd 2023. Ar y llaw arall, dengys y rhagolygon mwy pesimistaidd y bydd tua 8% erbyn diwedd 2023. Yn ogystal, gall chwyddiant i rai mathau o wariant aros yn uwch na hyn (bwyd, ynni, deunyddiau adeiladu) a gall y chwyddiant gwirioneddol a wynebir gan y Cyngor fod yn wahanol iawn i ffigwr y CPI. I ryw raddau, mae'r Cyngor wedi'i warchod rhag y risg hon oherwydd bod y mwyafrif o'n cytundebau mwy (prydau ysgol, cynnal a chadw priffyrdd, casglu sbwriel ayb.) yn defnyddio mynegeion chwyddiant o fis Medi, Hydref neu Dachwedd 2022 i bennu'r chwyddiant am 2023/24. O gofio bod y ffigyrau hyn yn hysbys, maent wedi'u cynnwys yn y gyllideb arfaethedig am 2023/24.

- **Chwyddiant Cyflog** - Cyflogau yw cost fwyaf y Cyngor, ac nid oes cytundeb wedi bod eto ar godiad cyflog am 2023/24 i staff nad ydynt yn athrawon. Mae'r Undebau wedi cyflwyno hawliad cyflog o RPI + 2% (sy'n cyfateb i tua 15%). Mae’r gyllideb arfaethedig yn caniatáu ar gyfer cynnydd o 3.5% am 2023/24. Byddai’n rhaid i unrhyw ddyfarniad uwchlaw’r ffigyrau hyn gael ei gyllido o gronfeydd wrth gefn y Cyngor, gyda phob cynnydd o 1% yn ychwanegu tua £600k at fil cyflog y Cyngor. Mae dyfarniad cyflog yr athrawon hyd at fis Medi 2023 wedi’i osod a’i dalu (5%), ac mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cynnig arall sy’n mynd â’r dyfarniad cyflog i 6.5%. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi codiad cyflog dangosol o 3.5% i athrawon o fis Medi 2023 ac mae lle i hwn yn y gyllideb er, unwaith eto, mae perygl na fydd yr undebau athrawon yn derbyn hyn.
- **Risg Cyfraddau Llog** - Mae cyfraddau llog yn cael effaith ar gyllideb refeniw un blwyddyn drwy’r llog a enillir - h.y. mae cynnydd yn y gyfradd llog yn fuddiol. Mae Strategaeth Rheoli’r Trysorlys yr Awdurdod yn ei gwneud yn ofynnol i fuddsoddiadau gael eu gwneud ar sail sicrwydd a hylifedd y buddsoddiad fel yr ystyriaeth gyntaf, gydag enillion ar fuddsoddiadau yn flaenoriaeth is, felly, nid yw’r gyllideb yn ddibynnol ar enillion buddsoddiad uchel. Mae cyfraddau llog wedi codi'n sylweddol yn y 12 mis diwethaf, gyda'r Cyngor, bellach, yn cael dros 3% ar ei fuddsoddiadau. Wrth osod y gyllideb, mae amcangyfrif o'r llog a geir wedi'i gynnwys yn y gyllideb, ond mae perygl na fydd y gyllideb yn cael ei chyflawni os bydd cyfraddau llog yn dechrau disgyn yn gyflym neu os bydd y cyllid sydd ar gael i'w fuddsoddi yn is na'r hyn a ragwelwyd. Mae'r rhan fwyaf o'r llog a delir gan y Cyngor yn ymwneud â benthyciadau cyfradd sefydlog na fyddant yn newid pe bai'r gyfradd llog yn codi. Felly, ystyrir bod y risg o ran cyfraddau llog yn isel ac, fel yn y blynyddoedd a fu, cydfantolir y risg ar gyfer risg chwyddiant, oherwydd os bydd un yn cynyddu, mae’r llall yn debygol o gynyddu hefyd.
- **Risg Grantiau** - Risgiau sy'n gysylltiedig â nifer fawr y grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru, neu gan gyrff eraill sy'n cefnogi cyfran dda o wariant y Cyngor yw’r rhain. Mae’r setliad terfynol yn nodi y bydd y rhan fwyaf o’r grantiau a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru yn cynyddu neu’n aros ar lefel 2022/23, sy’n lleihau risg y Cyngor yn sylweddol. Er mai'r ymateb uniongyrchol yw dweud, pan ddaw'r grant i ben, rhaid i’r gwariant cysylltiedig ddod i ben hefyd, mae perygl na fydd hyn bob amser yn bosibl. Efallai na fydd yn bosibl pan fo telerau contract yn golygu na ellir torri’r gwariant mor gyflym â’r incwm, neu ei fod yn ymwneud â chostau diswyddo heb eu cyllido. Efallai na fydd yn bosibl os yw’r gweithgaredd a gyllidir yn troi allan i fod mor bwysig wrth gyflawni blaenoriaethau’r Cyngor ei hun, fel bod y Cyngor wedi penderfynu bod yn rhaid iddo barhau â’r gwariant. Mae ymdrechion i liniaru'r risg hon yn sicrhau bod gennym y wybodaeth orau sydd ar gael ar bob grant, ond ni ellir diystyru'n llwyr unrhyw newidiadau sylweddol yn ystod y flwyddyn.
- **Risgiau Incwm –** Mae'r gyllideb yn seiliedig ar sicrhau cynnydd cyffredinol o 3% mewn ffïoedd, ac mae nifer o wasanaethau wedi rhagdybio codiadau hyd at 3%. Os yw hyblygrwydd y galw am Wasanaethau'r Cyngor yn golygu bod y galw'n gostwng, ac na chyflawnir targedau incwm, gallai hynny achosi gorwariant ar gyllidebau net. Gall yr argyfwng costau byw gael effaith ar yr incwm a gynhyrchir o wasanaethau megis hamdden, meysydd parcio, cynllunio a rheoliadau adeiladu, lle gall defnyddwyr ddewis lleihau eu gwariant ar y gwasanaethau yma nad ydynt yn hanfodol. O’r herwydd, bydd gofyn monitro sefyllfa'r gyllideb net yn agos ac, os oes angen, torri'n ôl ar wariant i gyfateb i lai o incwm.

- **Risg Galw** – Gall nifer o wasanaethau brofi newid yn y galw am eu gwasanaethau. Gellir rhagweld rhai a'u hystyried wrth osod y gyllideb e.e. newidiadau mewn niferoedd disgyblion. Mae eraill yn fwy anodd eu rhagweld a gall cynnydd bach mewn niferoedd gael effaith sylweddol ar gostau. Mae'r gyllideb yn caniatáu ar gyfer darparu'r gwasanaeth ar y lefelau presennol, gyda chynnydd yn y galw yn dod dan falansau cyffredinol y Cyngor neu, mewn rhai achosion, dan arian wrth gefn clustnodedig. Mae lwfans wedi'i wneud yng nghyllideb 2023/24 ar gyfer lefel bresennol y galw am wasanaethau ar gyfer gofal cymdeithasol ac atal digartrefedd, er bod perygl y bydd y cynnydd yn y galw yn parhau yn 2023/24 yn uwch na'r hyn a ganiateir yn y gyllideb. Byddai hyn yn arwain at orwariant yn y gwasanaethau hynny yr effeithir arnynt, a byddai'n rhaid ariannu'r gorwariant hwn o gronfeydd wrth gefn a balansau cyffredinol y Cyngor.
- **Risg o fod rhy Optimistaidd** – Yn y blynyddoedd a fu, mae'n debyg mai'r risg fwyaf yn yr amgylchiadau presennol yw bod yr Awdurdod, Aelodau a Swyddogion wedi bod yn oroptimistaidd o ran yr arbedion a gyflawnir neu na fydd y galw am wasanaethau, yn enwedig gofal cymdeithasol, yn cynyddu'n sylweddol. Am 2023/24, ni chynigir unrhyw arbedion ac, fel y cyfryw, nid yw'r risg hon yn berthnasol i gyllideb 2023/24 ond mae'r risg galw yn dal yn berthnasol (gweler uchod).
- **Risg o fod yn rhy Ofalus** – Dyma'r gwrthwyneb i'r risg uchod: y perygl fod ein cyllidebau wedi eu llunio'n rhy ofalus ac, felly, yn fwy na'r hyn sydd ei angen. Byddai hyn yn arwain at osod y Dreth Gyngor yn uwch na'r hyn sy'n ofynnol - rhywbeth y mae'r Aelodau'n awyddus i'w osgoi. Mae'r Swyddog Adran 151 yn fodlon gyda'r broses gosod cyllideb a bod y gyllideb a osodwyd yn asesiad teg o'r adnoddau sydd eu hangen ar bob gwasanaeth, yn seiliedig ar y ffactorau perthnasol fel ag y maent ar hyn o bryd.
- **Premiwm y Dreth Gyngor** – Wrth osod sylfaen y dreth, derbynnir y gall nifer yr eiddo gwag ac ail gartrefi newid yn ystod y flwyddyn ac, o'r herwydd, dim ond 80% o eiddo cymwys sydd wedi'u cynnwys yn sylfaen y dreth. Mae hyn yn diogelu cyllideb y Cyngor pe bai gostyngiad sylweddol yn y niferoedd. Fodd bynnag, dylid nodi bod nifer yr eiddo gwag a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo sylfaen y dreth wedi codi o 324 eiddo ym mis Hydref 2021 i 334 eiddo ym mis Hydref 2022, a chododd nifer yr ail gartrefi o 2,149 i 2,180 yn ystod yr un cyfnod, er i'r premiwm ail gartrefi godi o 35% i 50%. Mae'r newid yn lefel premiwm ail gartrefi o 50% i 75% yn risg sylweddol yn 2023/24. Gallai'r cynnydd annog perchnogion ail gartrefi i werthu neu osod eu heiddo h.y. un o'r dibenion a fwriedir o gynyddu'r premiwm, fodd bynnag, gallai annog mwy o achosion o beidio â thalu'r dreth neu osgoi ei thalu drwy drosglwyddo i drethi busnes neu drwy ddulliau osgoi eraill. Er mwyn lliniaru'r risg, bydd staff ychwanegol yn cael eu cyflogi i nodi achosion o osgoi talu'r dreth a lleihau swm y premiwm a gollir yn sgil hynny. Gan fod y Pwyllgor Gwaith wedi ymrwymo i ddefnyddio'r holl bremiwm ychwanegol i fynd i'r afael â'r materion a achosir gan niferoedd uchel o ail gartrefi ar Ynys Môn, byddai unrhyw ostyngiad sylweddol mewn incwm yn peri gostyngiad yn y cyllid sydd ar gael ar gyfer y mentrau hyn yn y blynyddoedd i ddod.
- **Incwm y Dreth Gyngor** – Mae cyllideb incwm y Dreth Gyngor yn seiliedig ar gyfrifo sylfaen y dreth ym mis Tachwedd y flwyddyn ariannol flaenorol. Mae sylfaen y dreth yn newid yn gyson yn ystod y flwyddyn, wrth i eiddo newydd gael eu cynnwys ac wrth i eithriadau a disgowntiau person sengl gael eu caniatáu. Ni ellir amcangyfrif y newidiadau hyn ac, yn ddieithriad, maent yn arwain at wahaniaeth rhwng y debyd gwirioneddol a godwyd a'r gyllideb. Yn sgil y newidiadau yn y trothwyon i eiddo hunanarlwyo gofrestru ar gyfer y Dreth Gyngor, dechreuwyd gweld nifer o eiddo hunanddarpar yn trosglwyddo'n ôl i gofrestr y Dreth Gyngor. Fodd bynnag, mae perygl y bydd y perchnogion yn cyrraedd y trothwyon uwch newydd yn ystod y flwyddyn i ddod, fydd yn fodd iddynt drosglwyddo yn ôl i'r gofrestr Trethi Busnes.

Gall yr argyfwng costau byw hefyd gael effaith ar gyfradd casglu'r Cyngor, wrth i fwy o aelwydydd frwydro'n ariannol gyda chostau cynyddol. Gall hyn arwain at golled ariannol yn 2023/24 neu mewn blynyddoedd i ddod, pan fydd dyledion na ellir eu casglu yn cael eu dileu yn y pen draw.

**5.4** Ar ôl ystyried yr holl risgiau a nodir uchod a'r camau lliniaru, mae'r Swyddog Adran 151 o'r farn bod y cyllidebau'n gadarn a bod modd eu cyflawni, a bod digon o gamau i liniaru yn erbyn y risgiau a nodwyd oherwydd bod sefyllfa'r Cyngor, o ran balansau cyffredinol a'r cronfeydd wrth gefn a clustnodedig, yn iach.

## 6. CRONFEYDD WRTH GEFN CYFFREDINOL A PHENODOL

**6.1** Mae'r gyllideb arfaethedig yn ymgorffori nifer o ragdybiaethau o ran lefelau tebygol o incwm a gwariant yn y dyfodol. Mae'n anochel, felly, fod nifer o risgiau ariannol yn rhan annatod o'r gyllideb arfaethedig. Nodir y rhain ym mharagraff 5 uchod.

**6.2** O ran unrhyw arian wrth gefn a chronfeydd wrth gefn, mae angen i'r Swyddog Adran 151 adolygu'r rhain yn eu cyfanrwydd ar y cyd â'r gyllideb sylfaenol ei hun a'r risgiau ariannol sy'n wynebu'r Awdurdod. Yn ogystal, dylai'r adolygiad edrych ar y tymor canolig, lle bo angen, ac ystyried datblygiadau allweddol a allai gael effaith ar yr angen am adnoddau untro a'u defnyddio.

**6.3** Cymerir safbwynt cadarn ar reoli risgiau cyllidebol a diogelu iechyd ariannol y Cyngor ar hyn o bryd. Mae hyn yn arbennig o wir pan fydd angen diogelu cyllid untro yn ddigonol i gyllido newidiadau strategol / trawsnewidiol yn y dyfodol, yn hytrach na chyllido gorwariant sylweddol ar y gyllideb sylfaenol ei hun.

**6.4** Ystyriwyd yr angen i gadw'r gostyngiadau uniongyrchol mewn gwariant, a'r effaith yn sgil hynny ar wasanaethau, cyn ised â phosibl. Fodd bynnag, rhaid cydbwyso hyn yn erbyn yr angen i sicrhau sefydlogrwydd ariannol tymor canolig a hir y Cyngor, ac i arbedion gael eu creu mewn ffordd raddol a strwythuredig dros y blynyddoedd nesaf. Yn ogystal, mae rhywfaint o risg bob amser y ceir gwariant nad yw wedi'i ragweld neu ryw orwario oherwydd pwysau mwy cyffredinol ar gyllideb gwasanaeth, a rhaid i gronfeydd wrth gefn hefyd fod yn ddigon i gymryd y pwysau hwn.

**6.5** Fel ar 31 Mawrth 2022, £12.278m oedd cronfeydd wrth gefn cyffredinol y Cyngor, sy'n cyfateb i 8.35% o gyllideb refeniw net y Cyngor am 2021/22, neu 11.75% os na chaiff y gyllideb datganoledig ysgolion ei chynnwys. Yn ystod y flwyddyn, neilltuiwyd £0.5m i gyllido gwaith trwsio priffyrdd ac ychwanegwyd £1.073m at gyllideb ddatganoledig ysgolion i gyllido costau cyflog ychwanegol. Mae £4.139m wedi'i drosglwyddo o gronfeydd gwasanaeth a chronfeydd wrth gefn eraill clustnodedig. Felly, £14.844m yw lefel y rhagolygon diwygiedig ar hyn o bryd, er bod hyn yn rhagdybio na fydd gor na thanwariant yng nghyllideb 2022/23. Ar ôl caniatáu ar gyfer defnyddio £1.780m yn gyllid ar gyfer cyllideb refeniw 2023/24, byddai'r balans diwygiedig yn disgyn i £13.064m neu 7.55% o gyllideb refeniw net 2023/24.

**6.6** Mae trosglwyddo'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig yn ôl i'r balansau cyffredinol, a defnyddio'r cronfeydd wrth gefn hyn yn ystod y flwyddyn, wedi gostwng y balans o £24.46m ar ddechrau 2022/23 i lawr i lefel a ragwelwyd o £9.973m ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**6.7** Dechreuodd balansau ysgolion ym mlwyddyn ariannol 2022/23 ar £7.83m, ond rhagwelir y byddant yn gostwng i £3.29m erbyn diwedd 2022/23, gyda £1.78m pellach yn cael ei ddefnyddio i fantoli cyllidebau ysgolion unigol yn 2023/24.

**6.8** Mae lefel y balansau cyffredinol yn fater i'r Cyngor benderfynu arno yn seiliedig ar argymhelliad Swyddog Adran 151 y Cyngor ond, fel rheol gyffredinol, ystyrir bod 5% o'r gyllideb refeniw net yn lefel dderbyniol. Mae'r cwestiwn a ddylai'r gyllideb refeniw net eithrio'r gyllideb ddatganoledig ysgolion yn fater i'w drafod, gan fod ysgolion yn dal eu balansau eu hunain i dalu costau annisgwyl. Ar sail y sefyllfa ariannol bresennol, mae cryn hyder y bydd lefel y balansau cyffredinol yn fwy na 5% o'r gyllideb refeniw net ddechrau blwyddyn ariannol 2022/23.

**6.9** Wedi ystyried lefel balansau cyffredinol y Cyngor, balansau ysgolion, cronfeydd wrth gefn clustnodedig a chyllidebau wrth gefn, mae'r Swyddog Adran 151 yn fodlon bod sefyllfa ariannol y Cyngor yn ddigon cadarn i wrthsefyll unrhyw anawsterau a all godi yn ystod 2023/24 os na fydd digon yn y gyllideb refeniw arfaethedig i gwrdd â'r costau gwirioneddol a gafodd y Cyngor yn ystod 2022/23.

## 7. Y DRETH GYNGOR

**7.1** £1,367.46 oedd yr hyn a godwyd am y Dreth Gyngor Band D am 2021/22, sef y 18fed o'r 22 Awdurdod yng Nghymru ac yn is na Chyfartaledd Cymru, sef £1,461. Yr hyn sy'n bwysicach i Ynys Môn yw'r gymhariaeth â'r pum awdurdod arall yng Ngogledd Cymru. Dangosir hyn yn Nhabl 3 isod:-

**Tabl 3**
**Cymhariaeth o Daliadau Band y Dreth Gyngor ar gyfer Awdurdodau Gogledd Cymru**

| Awdurdod | Yr hyn a godir ym Mand D 2022/23 £ | Y swm uwch / is nac Ynys Môn £ | Canran uwch / is nac Ynys Môn % |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 1,367 | | |
| Gwynedd | 1,527 | + 160 | + 11.7% |
| Conwy | 1,438 | + 71 | + 5.2% |
| Sir Ddinbych | 1,479 | + 112 | + 8.2% |
| Sir y Fflint | 1,450 | + 83 | + 6.1% |
| Wrecsam | 1,372 | + 5 | + 0.4% |

**7.2** £44.9m yw Cyllideb y Dreth Gyngor am 2023/24 (cyn cynnydd yn y Dreth Gyngor ond ar ôl addasu ar gyfer y newid yn sylfaen y dreth a phremiwm y Dreth Gyngor). Felly, mae pob cynnydd o 1% yn cynhyrchu £449k ychwanegol.

**7.3** Ar ôl cymryd i ystyriaeth ffigwr y setliad terfynol a ragwelir o £123.663m, y gofyn cyllidebol diwygiedig o £172.567m (gweler Atodiad 2) a defnyddio £1.780m o gronfeydd wrth gefn, byddai angen £47.124m mewn cyllid y Dreth Gyngor. I gyllido'r gofyn cyllidebol diwygiedig, byddai'r cynnydd yn lefel y Dreth Gyngor yn 5.00%, gan fynd â'r hyn a godir ym Mand D i £1,435.86, cynnydd o £68.40, neu £1.32 yr wythnos.

## 8. ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

**8.1** Wrth ddarparu ei wasanaethau, mae'n rhaid i'r Cyngor fod yn ymwybodol o'i ddyletswyddau dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 i asesu effaith penderfyniadau ariannol allweddol ar grwpiau gwarchodedig, a rhoi sylw dyledus i ganlyniad asesiadau o'r fath.

**8.2** Ni fydd y gyllideb arfaethedig yn cael effaith ar unrhyw un o'r grwpiau gwarchodedig a nodir yn y Rheoliadau ac, o'r herwydd, ni ystyrir bod angen unrhyw Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

## 9. DIWEDDARU Y STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG

**9.1** Fel y nodwyd ym mharagraff 1, mae'r sefyllfa economaidd wedi newid yn sylweddol ers i'r Cyngor gymeradwyo'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol (SATC) ym mis Medi 2022. Yn ogystal, mae'r setliad dros dro i lywodraeth leol am 2023/24, sy'n uwch na'r disgwyl, hefyd yn newid y strategaeth yn sylweddol.

**9.2** Y prif faes ansicrwydd o ran y SATC wrth symud ymlaen yw chwyddiant a'i effaith ar ddyfarniadau cyflog yn y dyfodol. Mae'r argyfwng costau byw a'i effaith ar y galw am wasanaethau'r Cyngor hefyd yn ffactor mawr.

**9.3** Mae'r CATC diwygiedig am 2024/25 a 2025/26, i'w weld yn Nhabl 4 isod:-

**Tabl 4**

**Crynodeb o Gynllun Ariannol Tymor Canol 2024/25 a 2025/26**

| | **2024/25 £'m** | **2025/26 £'m** |
|---|---|---|
| Cyllideb Refeniw Net - Dygir ymlaen<br>Pwysau ar y Gyllideb a Chwyddiant | 172.567<br>8.806 | 176.854<br>5.128 |
| **Cyllideb Ddisymud Ddiwygiedig** | **181.373** | **181.982** |
| Cyllid Allanol Cyfun (AEF) (gan ragdybio cynnydd o 3.0% yn 24/25 a chynnydd o 2.0% o yn 2025/26)<br>Y Dreth Gyngor (gan ragdybio cynnydd o 5% yn 2024/25 a 2025/26) | 127.373<br>49.481 | 129.920<br>51.955 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **176.854** | **181.875** |
| | | |
| **Cyllid Ychwanegol sydd ei Angen / Arbedion sydd eu Hangen** | **4.519** | **0.107** |
| | | |
| **Prif Ragdybiaethau** | | |
| Dyfarniadau Cyflog – i rai nad ydynt yn athrawon | 3.5% | 2.0% |
| Dyfarniadau Cyflog – i athrawon | 4.8% | 2.0% |
| Chwyddiant cyffredinol | 2.0% | 1.2% |

**9.4** Mae amcangyfrif y CATC uchod yn seiliedig ar nifer o ragdybiaethau a all newid wrth i ni symud tuag at 2024/25, ond noda'r cynllun y bydd angen gwneud gostyngiadau sylweddol yn y gyllideb gwariant refeniw net yn 2024/25 (dros £4.5m). Gallai hyn, eto, gael ei wrthbwyso'n rhannol gan ddefnyddio mwy ar yr arian wrth gefn ond, unwaith eto, yr oll mae hyn yn ei wneud yw gohirio'r angen i wneud gostyngiadau yn y gyllideb tan 2025/26.

**9.5** Mae'r sefyllfa'n gwella yn 2025/26, pan ragwelir dim ond diffyg bach iawn yn y cyllid ond mae hyn yn dibynnu ar y strategaeth barhaus i gynyddu'r Dreth Gyngor 5% y flwyddyn.

**9.6** Cyflwynir SATC gyfredol i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2023.

## 10. CASGLIADAU

**10.1** Mae'n bwysig bod y gyllideb a osodwyd yn gyraeddadwy ac yn adlewyrchu'r galwadau a wynebir gan wasanaethau ar hyn o bryd, er y nodir y byddai parhad yr argyfwng costau byw neu ailgyflwyno cyfyngiadau Covid yn cael effaith sylweddol ar gyllideb y Cyngor.

**10.2** Mae'r setliad i lywodraeth leol yn well na'r disgwyl, ac yn fodd i'r Cyngor osod cyllideb gytbwys yn 2023/24, gyda gostyngiadau bychain yn unig yng nghyllidebau gwasanaethau, defnydd cymedrol o gronfeydd wrth gefn gwasanaethau a chynnydd is na chwyddiant yn y Dreth Gyngor. Fodd bynnag, mae hefyd yn mynd â'r Cyngor yn ôl i sefyllfa lle nad yw'n bosibl buddsoddi'n sylweddol yng ngwasanaethau'r Cyngor.

**10.3** Mae sefyllfa ariannol gyffredinol y Cyngor yn dal yn weddol gryf er bod lefel y balansau a'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig wedi lleihau yn ystod 2022/23 ac, er bod defnyddio cronfeydd wrth gefn i gydbwyso cyllideb 2023/24 yn strategaeth weddol ddiogel, nid yw'n strategaeth y gellir ei defnyddio yn y tymor hir.

**10.4** Mae’r sefyllfa yn 2024/25 yn ymddangos yn anos ac, oni bai fod cyllid Llywodraeth Cymru yn cynyddu mwy na chwyddiant a / neu y cyfyngir ar ddyfarniadau cyflog a lefel gyffredinol chwyddiant yn gostwng, yna bydd angen gostyngiadau sylweddol yn y gyllideb. Fel arall, bydd yn rhaid i’r Dreth Gyngor godi’n uwch na'r 5% a ganiateir yn y CATC.

**10.5** Felly, ym marn broffesiynol y Swyddog Adran 151, mae’r gyllideb refeniw arfaethedig am 2023/24 yn cyflawni’r amcanion a ganlyn:-

- Sicrhau bod yr adnoddau ariannol a neilltuir i bob gwasanaeth yn ddigon i gwrdd â'r pwysau presennol ar y gyllideb a chyflawni'r galw am y swyddogaethau statudol y mae'n rhaid i'r gwasanaethau eu darparu.

- Defnyddio cyfuniad o ostyngiadau yn y gyllideb, cronfeydd wrth gefn a chynnydd yn y Dreth Gyngor i osod cyllideb gytbwys.

- Gosod lefel y Dreth Gyngor sy’n gymaradwy ag asesiad Llywodraeth Cymru o ble y dylai Dreth Gyngor Ynys Môn fod, ac sy’n unol â’r Dreth Gyngor a osodwyd gan awdurdodau eraill Cymru sydd o faint a math tebyg.

## 11. ARGYMHELLION

**11.1** Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo, i gyfarfod y Cyngor llawn 9 Mawrth 2023, gyllideb arfaethedig derfynol, fel y nodir ym Mharagraff 4,

**ATODIAD 2**

**Y GYLLIDEB ARFAETHEDIG DERFYNOL 2023/24 FESUL GWASANAETH**

| | **Y Gyllideb Arfaethedig Derfynol 2023/24 £** |
|---|---|
| Addysg a Diwylliant | 63,319,619 |
| Gwasanaethau Oedolion | 34,973,049 |
| Gwasanaethau Plant | 12,965,415 |
| Gwasanaethau Tai | 1,590,036 |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 19,755,398 |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | 5,754,153 |
| Trawsnewid Corfforaethol | 6,993,174 |
| Adnoddau | 3,723,134 |
| Busnes y Cyngor | 2,013,794 |
| Rheolaeth Gorfforaethol | 759,918 |
| **Cyfanswm Cyllidebau'r Gwasanaethau** | **151,847,690** |
| Costau Democrataidd a Chorfforaethol | 3,244,158 |
| Taliadau yr ailgodir amdanynt i'r CRT | (800,000) |
| Cymorth ar gyfer Cynlluniau Cymorth i Brynu Tai Lleol | 1,501,907 |
| Ardollau | 4,503,685 |
| Cyllido Cyfalaf | 4,328,774 |
| Budd-daliadau a Roddwyd | 109,240 |
| Rhyddhad Trehi Dewisol | 105,000 |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 6,751,765 |
| **Cyfanswm y Cyllidebau a Ddyranwyd** | **171,592,219** |
| Cynlluniau Wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill | 974,768 |
| **Cyfanswm Cyllideb 2023/24** | **172,566,987** |
| **Cyllidir gan** | |
| Grant Cymorth Refeniw | 100,839,789 |
| Trethi Annomestig | 22,822,905 |
| Y Dreth Gyngor (gan gynnwys Premiwm y Dreth Gyngor) | 47,124,293 |
| Cronfeydd Wrth Gefn y Cyngor | 1,780,000 |
| **Cyfanswm y Cyllid** | **172,566,987** |
| **Gwahaniaeth rhwng y Gyllideb a'r Cyllid** | |